# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Cyffredinol*

**26 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(c) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol ac arbed.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau a ganlyn gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) adran 1;

(b) adran 22;

(c) paragraff 5(2) o Atodlen 1;

(d) paragraff 9 o Atodlen 1.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 mewn grym ar 10.8.2018, gweler **a. 28(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 26.